# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 24 Ebrill 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(126)v4

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

**Cwestiwn Brys**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad brys ar amseroedd ymateb Gwasanaeth Ambiwlans Cymru?

**Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau**

**NDM5217 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mick Antoniw (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Ken Skates

(Llafur Cymru).

**NDM5218 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Christine Chapman (Llafur Cymru) a Jenny Rathbone (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Ann Jones (Llafur Cymru) a Joyce Watson (Llafur Cymru), a;

(ii) Christine Chapman (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

**NDM5219 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Ann Jones (Llafur Cymru), Keith Davies (Llafur Cymru) a David Rees (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn lle Christine Chapman (Llafur Cymru), Jenny Rathbone (Llafur Cymru) a Julie Morgan (Llafur Cymru), a;

(ii) Ann Jones (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

**NDM5220 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Sandy Mewies (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Gwyn Price (Llafur Cymru).

**NDM5221 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Julie Morgan (Llafur Cymru) a Joyce Watson (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle David Rees (Llafur Cymru) a Keith Davies (Llafur Cymru).

**NDM5222 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Ken Skates (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Mick Antoniw (Llafur Cymru).

**4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5211 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod effaith y tywydd garw diweddar ar gymunedau gwledig a busnesau yng Nghymru;

2. Yn nodi'r effaith y mae trafnidiaeth wledig a seilwaith cyfathrebu gwael wedi'u cael ar ymdrechion i fynd i'r afael ag amodau tywydd garw;

3. Yn credu bod yn rhaid i strategaeth ymateb i argyfwng Llywodraeth Cymru fod yn effeithiol wrth ymdrin â'r heriau unigryw sy'n wynebu cymunedau gwledig; a

4. Yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried cronfa galedi i gynorthwyo busnesau yr effeithiwyd arnynt gan dywydd garw.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

‘ac yn nodi bod graddfa ac amlder tywydd garw yn debygol o gynyddu wrth i’n hinsawdd newid.’

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod tywydd garw wedi cael effaith anghymesur ar ffermwyr mewn Ardaloedd Llai Ffafriol, sy’n cwmpasu 80% o dir amaethyddol Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cefnogaeth ariannol newydd ar gyfer ffermwyr mewn Ardaloedd Llai Ffafriol, a fyddai yn ei dro yn eu helpu i reoli effaith tywydd garw.

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5212 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod potensial Ynys Môn fel canolfan i ynni a thwf economaidd;

2. Yn croesawu'r cyhoeddiad y bydd Hitachi'n datblygu Horizon Nuclear Power ar safle Wylfa ar Ynys Môn;

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried datblygu cynllun clir i gefnogi datblygiad Ynys Môn fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni; a

4. Yn credu bod yn rhaid i ddatblygiad ynni niwclear ar Ynys Môn gael ei ategu gan gymorth pellach i gymysgedd cadarn o ynni ledled Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

'ond yn gresynu bod y dasg o adfywio economi'r ynys yn cael ei thanseilio gan raglen doriadau Llywodraeth y DU'

**Gwelliant 2 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu dynodi Ynys Môn yn ardal fenter.

**Gwelliant 3 – Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 4:

'ac felly'n galw am ddatganoli polisi ynni i'r Cynulliad Cenedlaethol.'

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i gryfhau'r rhwydwaith trawsyrru presennol o ganlyniad i ddatblygiadau ynni arfaethedig yng Ngogledd Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau tryloywder llawn wrth ymgysylltu â'r Grid Cenedlaethol ar seilwaith newydd i'r grid.

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM5213 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu'n ddirfawr at anghydraddoldeb ar sail rhyw a'i fwlch cyflog parhaol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth tymor hir i fynd i'r afael â stereoteipio o ran rhyw.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth y DU i roi grym i Dribiwnlysoedd Cyflogaeth orfodi archwiliadau cyflog ar gyflogwyr y ceir eu bod wedi gwahaniaethu ar sail rhyw mewn materion tâl cytundebol neu anghytundebol.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf am y camau a gymerir ganddi i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng y rhywiau ym maes entrepreneuriaeth yng Nghymru.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi argymhelliad Adroddiad Davies 'Women on Boards' y dylai Byrddau FTSE 100

anelu at leiafswm o 25% o gynrychiolaeth fenywaidd erbyn 2015 ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â busnesau Cymreig i gynyddu nifer y menywod mewn swyddi uwch reoli.

Gellir canfod Adroddiad Davies 'Women on Boards' drwy ddilyn y linc a ganlyn: http://www.bis.gov.uk//assets/biscore/business-law/docs/w/12-p135-women-on-boards-2012.pdf

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU am gynllun newydd ar gyfer gofal plant di-dreth i deuluoedd sy'n gweithio ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd, yn ogystal â Dechrau'n Deg, i gynorthwyo menywod i fynd yn ôl i'r gwaith ym mhob rhan o Gymru.

**Gwelliant 5 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod polisi Llywodraeth y DU i ddarparu adnoddau ar gyfer 5,000 o fentoriaid busnes gwirfoddol ar gyfer menywod i roi cefnogaeth effeithiol i fenywod sydd eisiau dechrau eu busnesau eu hunain neu dyfu eu busnesau, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r trydydd sector i ddatblygu cynllun o'r fath.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r camau gan Lywodraeth y DU i symud cydbwysedd cyfrifoldeb drwy absenoldeb rhieni ar y cyd, a fydd yn creu mwy o hyblygrwydd i rieni ac yn helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn menywod yn y gweithle, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydweithio â busnesau yng Nghymru i sicrhau y gallant addasu i'r trefniadau newydd.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5210 Eluned Parrott (Canol De Cymru):**

Cefnu ar ein Brodyr - Asesu cefnogaeth i Anhwylder Straen Wedi Trawma yng Nghymru.

Dadl am Bersonél Arfog ac Argyfwng yng Nghymru sy'n dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma a'r ffyrdd y gall Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Sector Gwirfoddol helpu.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2013